

PWYLLGOR PERSONEL

04 Medi 2019

Yn Bresennol: Cyngorydd M James (Cadeirydd)
Cyngorydd Mrs D Clements, Cyngorydd ML Evans, Dr R Heath-Davies, Cyngorydd PJ Morgan, Cyngorydd A Wilcox a'r
Cyngorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.45a.m. – 2.15p.m.)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth Mrs J James a Mr GA Jones.

2. Datgan buddiannau

Datgelodd sawl Aelod a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro eu bod yn adnabod un o'r ymgeiswyr yn rhinwedd eu gwaith, serch hynny barnent na fyddai hynny yn rhagfarnu eu penderfyniad. Datgelodd y Cyngorydd S Yelland diddordeb personol yn yr un ymgeisydd am ei fod wedi derbyn cyngor wrtho mewn perthynas â mater a oedd yn ymglymedig â'i ward etholiadol ar y Cyngor.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 04 a 05 Mehefin 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 04 a 05 Mehefin 2019.

4. Fforwm Cyflogeion

Cyflwynwyd adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019 i'r Aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad y cyfarfod o'r Fforwm Cyflogeion a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2019.

5. Eithrio'r cyhoedd

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

6. Penodi Swyddog Monitro

Roedd y Pwyllgor wedi cyfweld dau ymgeisydd am y swydd Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD argymhell i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol bod Mr M Kent yn cael ei benodi yn Swyddog Monitro.

